



# CYDBWYLLGOR LLYWODRAETHU PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU

**DYDDIAD 13 MAWRTH 2024**

## **PWNC**

### **Y WYBODAETH DDIWEDDARAF GAN YR AWDURDOD LLETYA**

#### **ARGYMHELLION / PENDERFYNIADAU ALLWEDDOL SYDD EU HANGEN:**

**Derbyn diweddariad gan yr awdurdod lletya**

#### **RHESYMAU:**

Yr awdurdod lletya i roi diweddariad ar gynnydd mewn perthynas â'r meysydd allweddol a ganlyn:

- Llywodraethu
- Sefydlu parhaus
- Gwasanaethau gweithredwr
- Cyfathrebu ac adrodd
- Hyfforddiant a chyfarfodydd
- Adnoddau, cyllideb a ffioedd

**Awdur yr Adroddiad:**  
**Chris Moore**

**Swydd:**  
Cyfarwyddwr Gwasanaethau  
Corfforaethol  
**Cyngor Sir Gâr**

**Rhif Ffôn 01267 224160**

**E-bost:**  
**CMoore@carmarthenshire.gov.uk**

# CRYNODEB GWEITHREDOL CYDBWYLLGOR LLYWODRAETHU

**DYDDIAD 13 MAWRTH 2024**

## Y WYBODAETH DDIWEDDARAF GAN YR AWDURDOD LLETYA

### CRYNODEB BYR O BWRPAS YR ADRODDIAD

Cymeradwywyd Cynllun Busnes PPC 2023/24 gan y Cydbwyllgor Llywodraethu ar 29 Mawrth 2023. Atodir diweddariad Chwarter 3 (1 Ebrill hyd 31 Rhagfyr 2023) sy'n dangos cynnydd PPC o ran adrannau'r Cynllun Gwaith, y Gyllideb a'r Buddsoddiadau.

Mae gwaith wedi parhau i gael ei ddatblygu mewn nifer o feysydd allweddol, gan gynnwys:

- Cynllun Hyfforddi a Chynllun Busnes
- Adolygiadau Polisi – Matrics Llywodraethu a Polisi Cyfathrebu
- Marchnadoedd Preifat:
  - Rhaglenni buddsoddiad Isadeiledd, Credyd Preifat ac Ecwiti Preifat
  - Eiddo Tirol - Gwahoddiad i Dendro (ITT) ar 19 Ionawr 2024, mae'r ymatebion a dderbyniwyd yn cael eu gwerthuso ar hyn o bryd
- Contract Gweithredwr - proses gaffael wedi'i chwblhau, adroddiad argymhellion i gael ei gymeradwyo gan y Cyd-bwyllgor Llywodraethu
- Buddsoddi Cyfrifol:
  - Adroddiad Hinsawdd Cymru Gyfan
  - Themâu stiwardiaeth - Bioamrywiaeth y Môr a Chemegolion Peryglus i gael ei lansio yn 2024
  - Strategaeth Esgoli i gael ei chynnwys yn y Polisi Stiwardiaeth
  - Incwm Sefydlog Cynaliadwy
  - Rhestr ffocws Hinsawdd

Camau nesaf / Blaenoriaethau:

- Caffael Eiddo Tirol – amserlen:
  - Mawrth 2024 – Gwerthuso'r ITT
  - Ebrill / Mai 2024 – Cyflwyniad / Cyfweliadau
  - Gorffennaf 2024 – CBLI yn cymeradwyo'r argymhelliad
  - Awst 2024 – Dyfarnu'r contract

- Adrodd TCFD
- Cwblhau cau cyfrifon a Ffurflen Flynyddol diwedd blwyddyn 2023/24
- Ffurio Diweddariad Blynyddol ac Adroddiad Blynyddol 2023/24
- Proses gaffael yr Ymgynghorydd Goruchwyliol
- Proses gaffael darparwyr Gwasanaeth Pleidleisio ac Ymgysylltu

Gwerth yr asedau cyfun ar 31 Rhagfyr 2023:

	31 Mawrth 2023 (£m)	31 Rhagfyr 2023 (£m)
Gweithredwr ACS	10,587	12,371
Ecwiti Goddefol	5,073	4,870
Isadeiledd - Caeedig		77*
Credyd Preifat		64*
Ecwiti Preifat		30*
Cyfanswm	15,660	17,412

\* Swm a dynnwyd i lawr fel ar 31 Rhagfyr 2023

Meysydd allweddol eraill:

- Cod Stiwardiaeth - Mae PPC yn parhau yn llofnodwr i'r UK Stewardship Code
- Hyfforddiant – sesiynau hyfforddiant yn parhau i gael eu cynnal yn rhithiol
- Gwefan - mae'r wefan yn parhau i gael ei diweddarau â newyddion a chyhoeddiadau perthnasol.

**ADRODDIAD MANWL YNGHLWM?**

**OES**

## GOBLYGIADAU

Polisi, Trosedd ac Anhrefn a Chydraddoldeb <b>OES</b>	Cyfreithiol <b>DIM</b>	Cyllid <b>DIM</b>	Materion Rheoli Risg <b>DIM</b>	Goblygiadau Staffio <b>DIM</b>	Bioamrywiaeth a Newid Hinsawdd <b>DIM</b>
<b>Polisi</b> Bydd y dogfennau polisi a gweithdrefnau yn ddogfennau ffurfiol ar gyfer Partneriaeth Pensiwn Cymru.					

## YMGYNGHORIADAU

Dylid cynnwys manylion unrhyw ymgynghoriadau a gynhaliwyd yma

<b>Adran 100D Deddf Llywodraeth Leol 1972 – Mynediad at Wybodaeth Rhestr o Bapurau Cefndir a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r adroddiad hwn: MANYLIR AR Y RHAIN ISOD</b>		
Teitl y Ddogfen	Cyfeirnod Ffeil	Y manau lle mae'r papurau ar gael i'r cyhoedd eu gweld/DOLEN GWEFAN